

CYNGOR CYMUNED BETHESDA BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo
A'n braint yw gwarchod ein bro"*

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

Rhif Ffôn: 01248 602131

Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Ngorffwysfan Nos Iau 27 Mehefin 2019

PRESENNOL:

Ward Ogwen

Y Cynghorydd Walter Williams

Y Cynghorydd Neville Hughes

Y Cynghorydd Gwilym Owen

Y Cynghorydd Bleddyn Williams

Y Cynghorydd Mary Jones

Y Cynghorydd Griff Morris

Ward Gerlan

Y Cynghorydd Dyfrig Jones

Y Cynghorydd Linda Brown

Y Cynghorydd Ann Williams

Ward Rachub

Y Cynghorydd Godfrey Northam

Y Cynghorydd Pearl Evans

Y Cynghorydd Susan Davies

Cyngor Sir:

Y Cynghorydd Paul Rowlinson

- 1. Croesawyd** pawb i'r Cyfarfod gan yr Is-gadeirydd y Cyng. Bleddyn Williams .
Ymddiheuriadau –gan y Cyng. Einir Williams.

2. Datgan Diddordeb

Eitem 7, Partneriaeth Ogwen: Y Cyng. Neville Hughes a Griff Morris.

3. Materion Brys

3.1 Ffurflen Flynyddol – y gwaith archwilio mewnol wedi ei gwblhau yn drylwyr gan Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd bod y Cyngor yn hapus i gymeradwyo'r ffurflen. Y Is-gadeirydd a'r Clerc i'w arwyddo.

3.2 John Street, Bethesda – cwynion wedi eu derbyn am feiciau a beiciau modur yn rasio ar y ffordd gul. Penderfynwyd holi Cyngor Gwynedd i osod arwydd 'mynediad i breswylwyr yn unig' ar dop y lôn a hefyd gofyn wrth yr heddlu i fonitro'r safle.

3.3 Blwch post, Braichmelyn – adroddwyd bod y blwch post wedi diflannu heb hysbysiad. Y Clerc i holi y Post Brenhinol am y blwch.

4. Cofnodion

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2019, yn ddarostyngedig i ychwanegu 'ac 1 tŷ 4 llofft' i Eitem 2.

5. Materion yn codi o'r Cofnodion

5.1 Offer cae chwarae Pantdreiniog– Penderfynwyd rhoi hawl i'r Cadeirydd a'r Clerc a'r is-bwyllgor i symud ymlaen gyda hyn. Y Cadeirydd a'r Clerc wedi cyfarfod i drafod y prisiau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw eu gofynion sylfaenol ar gyfer llawr i'r cae chwarae, gan bod llawr 'rubber mulch' a 'wetpour' yn ddrud ofnadwy.

5.2 Gwasanaeth Adnoddau Cyngor Gwynedd – cais am gynrychiolwyr ar gyfer Panel Apêl Mynediad a Phanel Apêl Gwaharddiad Disgyblion. Gwirfoddolwyr yn brin iawn, angen holi o gwmpas.

5.3 Gwyndaf Williams, Grŵp Cynefin – yn dilyn y cais am awgrymiadau i enwi'r stad newydd, y Clerc wedi anfon yr enw 'Llety'r Adar'.

6. Cadarnhau cynrychiolwyr

Yn dilyn absenoldeb o'r Cyfarfod Blyneddol, roedd angen cadarnhau enwebiadau.

Cadarnhawyd y canlynol:

Penodi Aelodau Pwyllgorau'r Cyngor

Cyllid ac Asesu Risg: N Hughes, E M Jones, G Northam, B Williams

Personél a Chyflogaeth: G Northam, G Owen, D Jones, A Williams, P A Evans

Goleuadau Cyhoeddus a Nadolig: G Northam, G Owen, A Williams, E Williams

Eiddo/Trosglwyddo Asedau: D Jones, G Northam, W Williams, E Williams, B Williams a'r Cadeirydd

Clwb Ieuentid: D Jones, W Williams, E Williams, A Williams, B Williams

Ethol Cynrychiolwyr i Gyrff Allanol

Balchder Bro Ogwen: N Hughes, W Williams, A Williams, B Williams

Neuadd Ogwen: S Davies, E M Jones, E Williams, W Williams

Panel Cyswllt Chwarel y Penrhyn: A Williams, E Williams, B Williams

Partneriaeth Ogwen: D Jones, B Williams, N Hughes, P A Evans, G Northam

B Williams wedi cymryd lle G C Morris, ond bydd G C Morris ar y Pwyllgor Rheoli tan cyfarfod blyneddol y Bartneriaeth yn y Hydref.

Un Llais Cymru: S Davies, P A Evans (A Williams wrth gefn)

Ysgol Llanllechid: G Northam

Ysgol Penybryn a Abercaseg: E M Jones

Ynni Ogwen: B Williams

7. Adroddiad Partneriaeth Ogwen

Pawb wedi cael adroddiad ysgrifenedig gyda diweddariad ar holl waith/brosiectau'r Bartneriaeth. Tynwyd sylw at y ffaith bod llawer o brosiectau cyffrous ar y gweill, ond dim capasiti ar gyfer gwireddu'r cwbl. Derbyniwyd yr adroddiad, gyda diolch.

8. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr

Dim i'w adrodd.

9. Model Protocol Datrysiadau Lleol

Derbyniwyd y templed a penderfynu mabwysiadu'r protocol.

10. Maes Parcio Gerlan

Wedi derbyn y dyluniadau gan cwmni Cadarn. Pawb yn unfrydol am symud ymlaen gyda'r cynllun ac anfon y dyluniadau am ganiatad cynllunio. Y Cyng. Paul Rowlinson am drefnu sesiwn yn Caban Gerlan i ddiweddarau trigolion Gerlan ar y prosiect.

11. Cymru Annibynnol

Cynnig wedi ei dderbyn gan y Cyng. Bleddyn Williams a Dyfrig Jones i'r Cyngor ddatgan eu cefnogaeth tuag at Cymru Annibynnol. 8 aelod o blaid, 3 yn erbyn ac un wedi ymatal. Cyngor Cymuned Bethesda yn datgan eu cefnogaeth i Gymru Annibynnol.

12. Gohebiaeth

Roedd pawb wedi cael copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2019'

12.1 E-bost gan Un Llais Cymru – modiwlau dysgu sylfaenol i'w cael ar-lein. Pawb i edrych ar y modiwlau sydd ar gael, sydd yn ddefnyddiol iawn.

12.2 E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri-ymgyngoriad cyhoeddus: Canllaw Cynllunio Atodol Drafft. Nodwyd yr ohebiaeth.

12.3 E-bost gan Cyngor ar Bopeth Gwynedd. Holiadur i'w lenwi ar-lein. Hefyd yn brin o wirfoddolwyr ar gyfer cynghori, pwyllgor llywio a codi pres.

12.4 E-bost gan Parc Cenedlaethol Eryri- dyddiad i'r dyddiadur-nosweithiau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Cynghorau Tref a Chymuned ym mis Medi a Hydref. Gwahoddiad ffurfiol i ddilyn , ond y Cyng. Godfrey Northam wedi mynegi diddordeb mynychu'r digwyddiad.

12.5 E-bost gan Un Llais Cymru – llythyr croeso. Nodwyd yr ohebiaeth.

12.6 E-bost gan Gyngor Gwynedd – diweddariad ar lwybr Lôn bach Odro gyda oriau agor a cau'r llwybr tra bod y gwaith adeiladu yn mynd ymlaen.

13. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio

Penderfyniadau

C18/1159/13/AM

Y Wern, Hen Fferm Gerlan

Codi 4 tŷ newydd, lôn mynediad a mynediad newydd

Penderfyniad: Holl

ymgyngoriadau drosodd

C19/0008/13/LL

Church of Saint Pius X and Blessed Richard Gwyn, Bethesda

Newid defnydd cyn Eglwys Gatholig yn uned fechan ar gyfer diwydiant ysgafn ar gyfer cynhyrchu caws arbenigol gyda llaw

Penderfyniad: Cais wedi ei gofrestru

C19/0348/13/LL

1 Lon Sarnau, Ffordd yr Orsaf, Bethesda

Addasu modurdy i uned wyliau

Penderfyniad: Gwrthodwyd, oherwydd problemau parcio a mynediad, lleoliad preswyl a diffyg cynllun busnes.

C19/0438/13/LL

38 Maes Coetmor, Bethesda

Estyniad deulawr yn y cefn a porth newydd

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag amodau.

C19/0429/13/LL

Bloc 1, Abercaseg, Bethesda

Creu llecynnau ar gyfer storio biniau a gwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Caniatwyd, gydag amodau

Ceisiadau

C19/0559/13/LL

4 Braichmelyn, Bethesda

Estyniadau, newidiadau, creu
llecynnau parcio a mynedfa
newydd

Penderfyniad: Dim
gwrthwynebiad

C19/0546/13/LL

88 Ffordd Carneddi, Bethesda

Codi tŷ newydd

Penderfyniad: Dim
gwrthwynebiad

14. Taliadau

Awdurdodwyd y canlynol

Cyflogau (Mehefin)	£284.57
CThEM (Mehefin)	£71.20
Dŵr Cymru - Llys Dafydd	£15.50
Partneriaeth Ogwen-cyfraniad wifi cymunedol	£1000.00
E Goodall-glanhau ffenestri Gorffwysfan	£7.50
Balchder Bro-basgedi crog	£60.00
Scottish Power – golau nadolig	£73.73
Zurich – yswiriant blynyddol	£1647.79